

I bwy bynnag sy'n gyfrifol.

Diolch am y cyfle yma I ymateb ynghylch yr ymgonghoriad ar ddatganoli darlledu I Gymru. Un o'r nodweddion sydd yn amlwg ar goll ac yn ffaeledig o ran y math o ddarlledu a fu dros gyfnod yr etholiad diweddaraf yma yw faint ohono sydd yn gwbl amherthnasol I Gymru ac I bobl Cymru. Mae'n hen bryd sicrhau fod y pwerau dros ddarlledu yn cael eu trosglwyddo I'r Senedd yn eu cyfanrwydd. Fe ddylid er engraifft sicrhau fod yna ddeddfwriaeth Gymreig yn ei le sydd yn gorfodi y darlledwyr I gynnal trafodaeth gyhoeddus yma yng Nghymru gan wahodd arweinwyr y pleidiau gwleidyddol.

Dim ond trwy throsglwyddo y pwerau ar ddarlledu I ni yma yng Nghymru, drwy'r Senedd, y gallwn ni obeithio ceisio datblygu sector ddarlledu sydd yn berthnasol I bobl Cymru. Rhaglenni felly sydd yn cael eu cynhyrchu gan bobl Cymru ar gyfer pobl Cymru ac yn yr un cyd-destun yn gwbl atebol I'r gwylwyr a'r gwrandawyr sef pobl Cymru. Mae angen yr hyblygrwydd a'r cyfle a'r rhyddid I ddatblygu sector ddarlledu a fydd yn gallu adlewyrchu ein anghenion ni yn ogystal a'n dyheuadau yma yng Nghymru. Mae gennym ni gyfrifoldeb hefyd dros sicrhau ein bod yn cyrraedd ein pobl mewn ffordd sydd yn eu cynnwys nhw yn natblygiad ein gwlad a'n pobl – yn hytrach na'r torreth o raglenni sy'n tarddu o Lundain a sydd yn gamarweiniol eu cynnwys wedi eu paratoi gan bobl sy'n deall y nesaf peth am ddim am Gymru a'n statws ddatganoledig.

Mae yna wirioneddol angen I ddatblygu y blatfom yna yma yng Nghymru er mwyn tegwch I'r bobl cawsom ein hethol I'w cynrychioli.

Mae yna engreiffitiau effeithiol o'r ffordd mae gwledydd eraill yn manteisio er engraifft yng Nghatalwnia a hefyd yng ngwlad y Basg. Yma yng Nghymru mae yna arolwg barn sy'n dweud fod 65% o bobl Cymru yn sefyll o blaid datganoli grymoedd darlledu. Mae'n hen bryd I ni edrych ar greu Awdurdod Darlledu newydd yng Nghymru er mwyn rheoleiddio'r cyfryngau yma yng Nghymru gan gryfhau yr elfennau cenedlaetho, lleol a digidol. Byddai modd hefyd I sicrhau ein cyfrifoldeb ni dros ffi trwydded.

Yn gywir,

EMLYN DOLE

Cynghorydd | Councillor Emlyn Dole

Arweinydd y Cyngor | Leader of the Council

Cyngor Sir Gâr | Carmarthenshire County Council

Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications
Committee
Datganoli Darlledu / Devolution of Broadcasting
CWLC DoB07
Ymateb gan Cyngor Sir Gâr / Response from Carmarthenshire County Council

Cynghorydd Sir Llannon | County Councillor Llannon Ward

Rhif Ffôn | Tel: 01267 224050

E-bost: EDole@sirgar.gov.uk | Email: EDole@carmarthenshire.gov.uk



 www.sirgar.llyw.cymru | www.carmarthenshire.gov.wales

 www.twitter.com/CarmsCouncil

 www.facebook.com/carmarthenshirecc

 www.flickr.com/discovercarms

*Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg
You are welcome to contact me in Welsh or English*